Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Bwlchygroes
# Yr Hen Ysgol
# Neuadd Bwlchygroes
# SA35 0DP

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/01/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Bwlchygroes, sydd yn cwrdd yn hen ysgol y pentref, yn awdurdod lleol Sir Benfro. Mae’r lleoliad yn agor am bedwar sesiwn yr wythnos rhwng 9.00 y bore a 11.30 y bore.

Mae’r lleoliad wedi’i gofrestru i gymryd hyd at 24 plentyn ar unrhyw adeg benodol, ac mae’r lleoliad yn derbyn plant rhwng dwy a phedair oed. Tua hanner y plant sy’n cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi’i hariannu.

Mae bron pob un o’r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig a lleiafrif ohonynt sy’n siarad Cymraeg fel mamiaith. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o’r plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae’r lleoliad yn cyflogi tri aelod o staff amser llawn. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Medi 2016.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Ionawr 2017 a gan Estyn ym mis Tachwedd 2011.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- ymarferwyr yn cynllunio cwricwlwm diddorol, sy'n herio'r plant yn effeithiol ac yn gwella'u dysgu
- ymarferwyr yn gweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd yn ddyddiol i herio medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant
- disgwyliadau uchel ac addysgu cadarnhaol yr ymarferwyr yn sicrhau gwelliannau rheolaidd yn y ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- defnydd effeithiol a chyson o'r Gymraeg gan ymarferwyr
- gofal tyner yr ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu pwrpasol ac ethos synhwyrol
- ardaloedd dysgu ac adnoddau parod yn ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn gosod cyfeiriad clir i'r gwaith dyddiol a thymor hir y lleoliad
- cydweithio effeithiol rhwng yr holl oedolion a'r pwyllgor rheoli
- y pwyllgor rheoli yn cefnogi'r lleoliad yn gyson i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- systemau hunanarfarnu addas yn arwain at osod targedau defnyddiol, sy'n cael effaith bwrpasol ar y ddarpariaeth
- ymarferwyr yn awyddus i elwa o hyfforddiant perthnasol gan asiantaethau allanol
- partneriaethau pwrpasol â rhieni, gofalwyr a'r ysgol leol
- arweinwyr yn gwneud defnydd llwyddiannus o gyllid i greu gwelliannau yn y ddarpariaeth ac i gynnal yr adeilad a'r ardal allanol yn effeithiol

## Argymhellion

A1 Mireinio asesiadau dyddiol i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant unigol

A2 Cynllunio’n fwriadus i ddatblygu medrau corfforol y plant tu fewn i’r adeilad

A3 Gwella gweithdrefnau hunanarfanu i adnabod yr holl feysydd ar gyfer gwelliant a chynllunio ar eu cyfer

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
| --- | --- |

**Safonau:**

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
| --- | --- |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu diddorol, sy'n bodloni anghenion a diddordebau'r plant yn effeithiol. Maent yn cymell y plant yn llwyddiannus i ddysgu trwy brofiadau ymarferol. Enghreifftiau o hyn yw'r cyfleoedd i chwarae rôl yn yr ardal gartref, adeiladu gludwaith allan o ddail a gwellt a chreu llinyn o rawnfwyd i'r adar. Mae'r cwricwlwm yn ysgogol ac yn adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn bwrpasol.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus i ddarparu gweithgareddau cyffrous i'r plant fel gorymdeithio yn yr ardal allanol. O ganlyniad, maent yn datblygu'n effeithiol fel dysgwyr annibynnol, tu fewn i'r adeilad a thu allan. Enghreifftiau gweithredol o hyn yw dewis llyfrau fel unigolion yn y gornel ddarllen a defnyddio offerynnau cerddorol o'u dewis eu hunain ar y wal allanol.

Mae'r holl ymarferwyr yn trafod y ffyrdd gorau i herio'r plant mewn cyfarfodydd rheolaidd, ac yn trefnu themâu a gweithgareddau ar sail hyn. Maent yn cynnig cyfleoedd da i'r plant leisio eu syniadau personol i ddatblygu'r gweithgareddau ymhellach trwy fapio eu holl syniadau ar daflenni defnyddiol cyn dechrau'r thema. Mae eu gwrando deallus ynghylch syniadau'r plant yn ychwanegu'n effeithiol at frwdfrydedd dyddiol y plant. Mae'n adeiladu'n gadarnhaol ar eu cymhelliant, er enghraifft wrth iddynt ymchwilio i hanes y pabi fel symbol o'r oes a fu.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, meddwl a TGCh y plant. Mae gweithgareddau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob maes dysgu ac yn herio'r plant i gyflawni ar eu gorau'n gyson. Enghreifftiau ymarferol o hyn yw'r cyfleoedd i blant wneud siapiau a marciau'n annibynnol ar fyrddau du â sialc a chreu rhifau allan o does. Hefyd, maent yn gwrando ac ymateb i gerddoriaeth wrth ganu a chydweithio i lifo dŵr drwy gafnau a phibellau tu allan.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh yn bwrpasol. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd da i ddefnyddio ystod o offer fel chwaraeydd cryno ddisg, clipfyrddau sy'n recordio'r llais, llechi a theganau electronig. Mae pob ymarferwr yn herio plant yn effeithlon, gan ddefnyddio meddalwedd addysgol ac appiau yn y Gymraeg i ddatblygu eu medrau TGCh cynnar.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n bwrpasol ar ddatblygu medrau corfforol y plant yn yr ardal tu allan. Mae cyfleoedd cyson iddynt ddringo cyfarpar anturus a chwarae'n fywiog ar y buarth. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu cynllunio'n addas. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn gwneud y defnydd gorau o'r gofod sydd ar gael yn yr adeilad i herio'r plant i'r eithaf wrth ddatblygu eu medrau corfforol.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn fuddiol iawn. Mae'r ymarferwyr yn fodelau hyderus o'r iaith. Maent yn cynorthwyo'r plant sy'n dechrau dysgu'r iaith yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio'r iaith cymaint ag y bo modd trwy weithgareddau diddorol. Maent yn herio'r plant yn gyson yn yr ardaloedd dysgu ac mae eu holi meddylgar a phatrymau iaith cywir yn cefnogi'r plant i ymateb yn synhwyrol. Mae llawer o'r plant yn ymateb â geiriau ac ymadroddion cyfarwydd yn fuan ar ôl cychwyn yn y lleoliad. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o'r plant o'r iaith Gymraeg yn datblygu'n effeithiol.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen a choginio cawl.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Mae'r profiadau'n cynnwys ymweliadau i siop y pentref, canolfan arddio gyfagos ac ardaloedd natur. Mae ymwelwyr fel ffermwraig ag anifeiliad amrywiol, heddwas, glanweithydd deintyddol a'r ymwelydd iechyd yn addysgu'r plant yn effeithiol am rolau pobl yn eu cymuned.

**Addysgu: Da**

Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn ynglŷn â gofynion y cyfnod sylfaen.

Mae ymarferwyr yn rhannu disgwyliadau uchel ar gyfer y plant ac maent yn cydweithio'n effeithiol. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol ac mae gweithdrefnau diogel yn perthyn i'w gwaith. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus ym mhob gweithgaredd.

Mae'r holl ymarferwyr yn herio'r plant yn gyson trwy dasgau ffocws a pharhaus. Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn bwrpasol wrth fodelu patrymau iaith a geirfa gyfoethog. Maent yn gwybod pryd i ymyrryd yn bwrpasol ym mhrofiadau a chwarae'r plant er mwyn eu hysgogi a'u cymell i lwyddo. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod cymhelliant y plant yn uchel. Gwelir hyn wrth i blant ddyfalbarhau i ddarganfod pabïau â rhifau arnynt dan bentwr o reis lliwgar.

Mae'r ymarferwyr yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy chwarae. Enghreifftiau da o hyn yw'r cyfleoedd i blant arbrofi â sbyngau wrth beintio'r wal, creu cacennau yn y gegin fwd a chreu cysgodion gyda'u cyrff yn yr ardal allanol ar ddiwrnodau heulog.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn ddefnyddiol. Mae'r dystiolaeth yn cyfatebu'n gywir i ddeilliannau plant unigol gan ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen, wrth iddynt ddatblygu yn y lleoliad. Mae'r holl ymarferwyr yn cofnodi'r asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson. Maent yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Fodd bynnag, nid

ydynt yn defnyddio’r asesiadau dyddiol yn ddigon cyson i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol yn eu cynllunio.

Mae’r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am gyflawniadau eu plant. Mae’r deialog dyddiol rhwng yr ymarferwyr a’r rhieni a gofalwyr yn atgyfnerthu hyn a chyfarfodydd swyddogol ar gael i drafod cynnydd y plant cyn iddynt drosglwyddo i’r ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r lleoliad yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae’r ymarferwyr yn defnyddio sesiynau torfol, fel amser byrbryd, i feithrin y gwerthoedd hyn yn bwrpasol. Mae hyn yn sicrhau bod llawer o’r plant yn ystyried teimladau eu cyfoedion yn ddeallus, yn ymwneud â’i gilydd yn deg ac yn parchu eraill, gan gynnwys oedolion.

Mae’r holl ymarferwyr yn creu amgylchedd myfyriol wrth ddarparu cyfleoedd cadarnhaol i’r plant feddwl, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo. O ganlyniad, mae’r plant yn cymryd eu tro’n gwrtais wrth iddynt olchi dwylo, arllwys diod o jygiau a chydweithio’n ddiwyd i glirio’u llestri ar ddiwedd amser byrbryd mewn bowlenni. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn feithrin cyfrifoldeb yn ystod gweithgareddau cymdeithasol.

Mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant ac mae’r lleoliad yn gweithredu systemau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae’r plant yn deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn cyfrannu at ffordd synhwyrol o fyw.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn, nwyddau plastig, chetris argraffu a bwyd. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn llwyddiannus.

Mae’r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, ac mae hyn yn dileu unrhyw aflonyddwch ac ymddygiad gwael. Mae’r lleoliad yn amgylchedd diogel gyda’r drws wedi cloi. Mae’r ymarferwyr yn wyliadwrus pan fydd y plant yn cyrraedd a phan gânt eu casglu. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn briodol pan fyddant yn ymuno â’r lleoliad, ac yn ystod eu cyfnod yno. Mae’r ymarferwyr yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd ac yn targedu plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol pan fydd angen. Mae’r ymarferwyr yn trafod y plant hyn gyda’u rhieni a’r asiantaethau arbenigol, ac yn gweithredu’n effeithiol ar eu cyngor i dargedu anghenion plant unigol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth glir o anghenion y plant. Mae hyn yn arwain at greu cymuned gwbl gynhwysol lle mae’r holl blant yn cael cyfle cyfartal i ddysgu yn yr ardaloedd gwahanol. Mae’r ymarferwyr yn herio a chefnogi plant yn ddyddiol mewn modd cadarnhaol a gofalus.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau'n bwrpasol i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion plant. Caiff ystod o adnoddau diddorol eu defnyddio'n effeithiol mewn gweithgareddau parhaus, gweithgareddau ffocws ac i gyfoethogi'r dysgu. Mae'r adnoddau yn cael eu cadw ar lefel ymarferol i bob un o'r plant eu cyrraedd. Mae hyn yn galluogi'r plant eu hestyn a'u rhoi i gadw heb ymyrraeth oedolion. Mae hyn yn effeithio'n bwrpasol ar hyrwyddo synnwyr o gyfrifoldeb ymysg y plant. Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau TGCh i ddatblygu medrau'r plant yn llwyddiannus.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais dyddiol ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Maent yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy eu gweithgareddau pob dydd a'u hagweddau brwdfrydig. Maent yn addysgu'r plant am wahanol wyliau a diwylliannau'r byd yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn cynllunio cyfleoedd i'r plant ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tseiniaidd a Diwali yn flynyddol, clywed storïau moesol am Affrica a chwarae gyda doliau o wahanol ddiwylliannau yn effeithiol.

Mae'r adeilad o ansawdd addas, yn cael ei gynnal yn briodol ac mae'n ddiogel. Mae'r ardal allanol yn cynnwys ardaloedd plannu a thyfu, cyfarpar i ddringo ac ardaloedd heriol i ddatrys problemau gyda dŵr ac ymchwilio i fywydau trychfilod. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r ardaloedd hyn yn greadigol. Fodd bynnag, ni ddefnyddir yr holl ofod yn yr adeilad yn synhwyrol ar gyfer darparu gweithgareddau bywiog dan do.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r cyfleusterau lleol yn effeithiol, drwy fynd â'r plant i amryw o leoedd i rannu mewn gweithgareddau eu milltir sgwâr, fel canolfan arddio gyfagos.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn llywio cyfeiriad pwrpasol i arferion cyson y lleoliad. Mae hyn yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau'n llwyddiannus. Mae ei weledigaeth graff yn sicrhau bod y profiadau dysgu ar gyfer y plant, yr addysgu a'r gofal yn effeithiol.

Mae amcanion a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n effeithlon ar wella'r ddarpariaeth. Mae hyn yn bodloni anghenion y plant yn bwrpasol ac yn hyrwyddo eu cyflawniadau'n synhwyrol. Mae'r arweinydd yn gweithio'n gydwybodol gyda'r ymarferwyr eraill ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran eu hunain a'r plant. O ganlyniad, maent yn cymell y plant yn ddyddiol i wella mewn ffyrdd synhwyrol a chefnogol trwy addysgu effeithiol, yn enwedig trwy fwydo'r Gymraeg iddynt yn rheolaidd.

Mae'r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol a chyfredol am y lleoliad i wella'r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys defnyddio proffil y cyfnod sylfaen i adnabod mannau cychwyn y plant yn gywir ynghyd â phlethu holl agweddau'r cynllunio i ddarparu cwricwlwm ysgogol.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar gynnig gweithgareddau diddorol i'r plant. O ganlyniad, maent wedi llwyddo i greu newidiadau buddiol i'r ardaloedd dysgu, tu fewn i'r adeilad a thu allan. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r plant. Mae'r arweinydd hefyd yn canolbwyntio'n drylwyr ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel

datblygu strategaethau llythrennedd, rhifedd a TGCh, i wella medrau'r plant cyn iddynt ddechrau'r ysgol.

Mae'r arweinyddiaeth, sy'n cynnwys pwyllgor rheoli cefnogol, yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn effeithiol. Mae'r pwyllgor rheoli yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn trwy werthusiadau a thrafodaethau cyson ac yn gweithio'n ddiwyd fel tîm. Mae'r pwyllgor rheoli'n herio'r lleoliad yn llwyddiannus i gynnal a gwella eu harferion a datblygu'r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach. Maent yn derbyn gwybodaeth am arferion y lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinydd. Mae'r pwyllgor rheoli ymroddgar yn cyfarfod yn gyson i drefnu gweithgareddau i gynyddu'r incwm ac maent yn monitro'r gwariant a'r defnydd o grantiau yn fanwl.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu yn gadarn ac yn rhan reolaidd o arferion gwella'r lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn monitro safonau'r plant ac ansawdd y ddarpariaeth yn gyson, trwy ddefnyddio systemau'r awdurdod lleol yn effeithiol. Mae'r pwyllgor rheoli'n cymryd rhan weithredol yn y broses. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r lleoliad ac yn eu galluogi i adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae'r cydweithredu rhwng yr ymarferwyr, y pwyllgor rheoli, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn effeithiol. Mae'r wybodaeth a gesglir yn rheolaidd, yn ogystal ag ymweliadau ac arfarniadau gan yr asiantaethau allanol, yn cyfrannu'n bwrpasol at yr arfer hon. O ganlyniad, mae'r lleoliad wedi gwneud gwelliannau pwrpasol dros amser. Mae hyn yn cynnwys rhoi proffil y cyfnod sylfaen ar waith ac ymdrechu'n drylwyr i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant yn y Gymraeg.

Mae prosesau hunanarfarnu ffurfiol y lleoliad yn datblygu'n addas. Er enghraifft, mae arweinwyr yn ystyried safbwyntiau ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r gweithdrefnau hunanarfarnu'n briodol i bennu'r blaenoriaethau cywir yn y cynllun gwella. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn blaenoriaethu gwariant yn bwrpasol yn unol â'r targedau ar gyfer gwella. Mae'r ymarferwyr yn cytuno ar y blaenoriaethau ac maent yn newid agweddau o'r ddarpariaeth yn briodol ar y cyd i ymateb i'r anghenion a nodwyd yn y cynllun gwella. Fodd bynnag, nid yw'r targedau yn y cynllun datblygu bob amser yn deillio'n uniongyrchol o broses hunanarfarnu'r lleoliad. Nid yw'r adroddiad hunanarfarnu bob tro'n cynnwys digon o fanylion ynglŷn â sut a pham mae angen gwella ychydig o feysydd ymhellach.

Mae'r holl ymarferwyr yn awyddus i dderbyn syniadau newydd a awgrymwyd gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddogion Mudiad Meithrin. Maent yn gweithredu yn unol â'u cyngor yn rheolaidd. Mae hyn wedi arwain at welliannau cynaledig, fel gwella profiadau i blant yn yr ardaloedd awyr agored trwy ddefnyddio'r gegin fwd a gosod gweithgareddau amrywiol ar y waliau o gwmpas y lleoliad.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau strategol effeithiol. Mae'n gweithio'n llwyddiannus gyda'r partneriaid hyn i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant.

Mae cyswllt cadarnhaol â'r ysgol leol. Pennaeth yr ysgol yw'r unigolyn cofrestredig ar gyfer y lleoliad ac mae'n ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd i gefnogi. Mae hyn yn cryfhau trefniadau pontio'r plant yn effeithiol, er enghraifft drwy drosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau'r plant yn bwrpasol.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae ymarferwyr yn eu hysbysu'n rheolaidd, drwy gylchlythyron a chyfryngau cymdeithasol, am bob agwedd o waith y lleoliad. Cânt eu hannog i gynnig eu barn ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau cyson fel datblygu'r ardal allanol.

Mae cysylltiadau cymunedol y lleoliad yn cefnogi dysgu'r plant yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau cymunedol i godi arian a chefnogaeth fuddiol wrth gynnig am nawdd a grantiau perthnasol. Yn ychwanegol, mae'r lleoliad yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, ac mae hyn yn meithrin tynerwch a gofal am eraill ymhlith y plant.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n bwrpasol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r sefydliadau hyn yn cefnogi dogfennaeth a hyfforddiant yr ymarferwyr yn effeithiol. Yn ychwanegol, mae'r ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill sydd yn gwneud cyfraniadau pwysig at wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n darparu hyfforddiant mewn cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, asesiadau risg ac amddiffyn plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad. Gwneir hyn trwy ddefnyddio ymarferwyr yn ddeallus a dyrannu adnoddau'n bwrpasol. Maent yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys, sydd wedi cael hyfforddiant perthnasol, i fodloni anghenion y plant yn effeithiol.

Mae arferion arwain cadarn yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae cymuned ddysgu gadarn yn bodoli, sydd â diwylliant o gydweithio effeithlon rhwng ymarferwyr a phartneriaid y lleoliad.

Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn drwyadl ac yn sicrhau profiadau dysgu pwrpasol ac arferion addysgu cadarnhaol. Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau yn effeithiol i gefnogi dysgu'r plant. Mae hyn yn cynnwys newid yr ardaloedd dysgu dan do ac yn allanol yn achlysurol i ysgogi'r plant wrth iddynt ymateb i heriau'r gwahanol themâu.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn defnyddio'r gyllideb a grantiau'n ddefnyddiol. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r cynllun datblygu yn effeithlon a chreu gwelliannau cyson trwy drafod a blaenoriaethu cyllid penodol yn bwrpasol. Enghraifft o hyn yw'r buddsoddiad diweddar mewn cyfarpar TGCh newydd. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau TGCh y plant.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian oherwydd y ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth bwrpasol.

## Atodiad 1

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |